**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2022**
25 Ebrill 2022, 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

## 1. Presennol

Elin Jones, Glyn Griffiths

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Datganodd y Cynghorydd

## 3. Ymddiheuriadau

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion 14 Mawrth 2022

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Elin Jones

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at ADRA er mwyn gofyn am ddiweddariad ar amserlen y cais cynllunio, ac am gynllun diwygiedig o'r safle yn dangos y tŷ sy'n sefyll ar ben ei hun wedi ei droi. Hefyd mynegi pryder trigolion Garreg Frech am ys asesiad traffig, ac y dylai hwnnw gael ei gynnal ar ôl 5:30 wedi i drigolion ddod adref o'r gwaith er mwyn cael darlun cywir.

### 5.2 13 Garreg Frech

Mae Mabon ap Gwynfor AS wedi cytuno i drefnu cyfarfod ar y cyd rhwng cynghorau cymuned sy'n cael problemau tebyg efo eiddo gwag, tua mis Mehefin/Gorffennaf, unwaith bydd cynghorwyr sir a chymuned wedi setlo yn eu swyddi yn dilyn etholiad mis Mai.

### 5.3 Y Ganolfan

Mae Cyngor Gwynedd wedi gofyn am ddefnyddio'r Ganolfan ar gyfer etholiadau mis Mai, ac fe gytunwyd i hynny.

Nid yw hi wedi bod yn bosibl cael contractwyr lleol i dynnu’r hen gegin tan o leiaf mis Gorffennaf.

Felly cytunodd y Cynghorydd Nia Povey I edrych am gontractwyr eraill.

Yn ogystal, mae sistern y toiled yn gollwng ac fe gytunodd y Cynghorydd Nia Povey a Glyn Griffiths fynd i’r Ganolfan er mwyn gweld beth fedrir ei wneud am hyn.

Trafodwyd hefyd defnyddio’r Ganolfan fel lle i ffoaduriaid o Wcráin gyfarfod, pe byddai ffoaduriaid yn cael eu lleoli yn ardal Llanfrothen, ac roedd pawb yn gytûn i hyn.

## 5.4 Polisïau’r Cyngor Cymuned

Cytunwyd yn unfrydol i fabwysiadu Polisi Bioamrywiaeth a gynigwyd gan y Cynghorydd Nia Povey.

**Cynnig:** Elin Jones

**Eilio:** Glyn Griffiths

## 5.5 Goryrru Llanfrothen

Bu i’r Cynghorydd Nia Povey a’r Cynghorydd Elin Jones gyfarfod efo swyddogion Cyngor Gwynedd er mwyn trafod goryrru a sut liniaru traffig yn Llanfrothen.

Cytunodd Cyngor Gwynedd ddanfon cynllun yn crynhoi'r hyn a drafodwyd, ond nid yw wedi cyrraedd hyd yn hyn.

Mae’n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod uchafswm cyflymder o 20 m.y.a. mewn nifer o bentrefi drwy Gymru yn y dyfodol agos, gan eu bod yn ymgynghori ar hyn ar hyn o bryd.  Os felly, byddai’n ddibwrpas gosod arwydd fflachio 30 m.y.a..

Eglurodd swyddogion Cyngor Gwynedd fod marciau ar ganol y ffordd heb eu hail baentio, gan fod hyn yn dueddol i wneud i yrwyr yrru yn arafach.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ofyn I Arrive Alive osod fan ger Siop a Chaffi Llanfrothen, Cytunwyd hefyd i symud arwydd Llanfrothen yn agosach i’r pentref, a gosod “Gyrrwch yn ddiogel” arno, ond mae’n debyg y byddai’n rhaid i’r cyngor cymuned dalu am gost hyn.

Eglurodd Cyngor Gwynedd na fyddent yn gosod cyfyngiad cyflymder ar y ffordd allan o Lanfrothen at Tan Lan, nac ychwaith ar y B4410, oherwydd bod hon yn ffordd fawr a ddim yn rhan o'r pentref.

**6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Mawrth 2022 £239.52

TWE **£60.00**

**6.2** Cymeradwyo tâl ychwanegol i'r Clerc 2021-22

**Cynnig:**Elin Jones

**Eilio:**Glyn Griffiths

**6.3** Adnewyddu Polisi Yswiriant BHIB £975.28

**6.4** Anfoneb Dunn & Ellis £59.40

**6.5** Treth Annomestig Y Ganolfan £561.75

**6.6** Anfoneb Snowdonia Fire Protection 285982 £66.90

**6.7** Ad-dalu'r Clerc am faner Cymru £106.80 a baner Wcrain £7.990

**6.8** Derbyn tâl claddu gan Pritchard & Griffiths £1,600.00

**6.9** Balans yn y banc 19 Ebrill 2022 £30,503.67

**6.10** Cytunwyd i drosglwyddo £20,000 o gyfrif 21041169 i gyfrif 41810197

**7. Gohebiaeth**

Gwarchod Enwau Lleoedd Cymru

Cytunwyd i gefnogi cais Cylch yr Iaith ac ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddyn nhw sefydlu deddfwriaeth er mwyn gwarchod enwau lleoedd Cymraeg.

**8. Cynllunio**

Dim

**9. Materion Eraill**

**9.1 Enwebiadau Cyngor Cymuned**

Mae 4 aelod wedi eu henwebu ar gyfer tymor newydd y Cyngor Cymuned, a hynny'n nifer digonol er mwyn sicrhau cworwm, ond bydd angen wedyn chwilio am 4 aelod i'w cyfethol.

### 9.2 Cyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw

Gwahoddir cynrychiolaeth o'r cyngor cymuned i gyfarfod nesaf Ymddiriedolwyr Brondanw fydd yn cael ei gynnal cyn diwedd y flwyddyn.

| **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 23 Mai 2022** |
|---|